**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU NEWID SEFYDLIADOL**
**28 IONAWR 2019**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Newid Sefydliadol Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora Delyn, Neuadd y Sir, yr Wyddgrug ddydd Llun, 28 Ionawr 2019.

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Dave Mackie (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Marion Bateman, Ian Dunbar, Dennis Hutchinson, Tudor Jones, Brian Lloyd, Mike Reece, Ralph Small, Paul Shotton, Andy Williams, a David Wisinger

**DIRPRWYON:** Y Cynghorwyr: Mike Lowe (ar ran Sean Bibby) a Hilary McGuill (ar ran Mared Eastwood)

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorydd Billy Mullin, Aelod Cabinet Rheolaeth Gorfforaethol ac Asedau. Y Cynghorwyr Janet Axworthy a Geoff Collett

**HEFYD YN BRESENNOL:** Y Cynghorwyr Mike Allport, Carol Ellis a Kevin Hughes

**CYFRANWYR:** Y Cynghorydd Christine Jones, Aelod Cabinet y Gwasanaethau Cymdeithasol, y Prif Weithredwr, Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol), Uwch-reolwr Gwasanaethau Integredig, Rheolwr Rhaglen ADM a TSS, a Swyddog Cynllunio a Datblygu. (Ar gyfer cofnod rhif 36) Andrew Horner, Cyfarwyddwr Prosiectau Gweithredol, Hft Limited, a Jordan Smith, Rheolwr Rhanbarthol, Hft Flintshire

**HEFYD YN BRESENNOL:** Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Cyn cychwyn y cyfarfod, eglurodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd y byddai dau funud o dawelwch am 11.00am ar gyfer Diwrnod Cofio'r Holocost.

## 34. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad.

## 35. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Rhagfyr 2018.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo’r cofnodion fel cofnod cywir a bod y Cadeirydd yn eu llofnodi.

## 36. DIWEDDARIAD AR Y MODEL DARPARIAETH AMGEN - DIWRNOD ANABLEDDAU DYSGU GOFAL CYMDEITHASOL A'R GWASANAETH CYFLEOEDD GWAITH

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol) yr adroddiad i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch cynnydd Model Cyflawni Gwahanol Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol Gofal Dydd a Chyfleoedd Gwaith Anableddau Dysgu, gan gynnwys darparu'r gwasanaeth ar ôl trosglwyddo i Hft Limited. Rhoddodd wybodaeth gefndir a dywedodd, yn ychwanegol at gynnydd ar bartneriaeth yr Awdurdod gyda Hft, bod yr adroddiad yn cynnwys diweddariad ar adeiladu Canolfan Ddydd newydd yn Queensferry, a fyddai'n helpu i drosglwyddo a moderneiddio'r gwasanaeth i bobl Sir y Fflint.

Croesawodd a chyflwynodd y Prif Swyddog Andrew Horner, Cyfarwyddwr Prosiectau Gweithredol Hft Limited, a Jordan Smith, Rheolwr Rhanbarthol Hft Flintshire, gan eu gwahodd i roi cyflwyniad ar Hft Flintshire a oedd yn trafod y prif bwyntiau canlynol:

- pwy yw Hft a ble rydyn ni
- trosglwyddo
- Glanrafon, Hwb Cyfle, Tri-Ffordd, Rowley's Pantry a Freshfields
- Castle Connections
- Tîm Opsiynau Gwaith
- astudiaethau achos
- model cefnogaeth
- pobl rydyn ni'n eu cefnogi – adborth
- heriau
- datblygu'r gweithlu
- hyfforddiant gorfodol
- cyfnewid staff
- codi arian
- Project Search Flintshire

Soniodd Mr Horner a Mr Smith am y cynnydd a wnaed ers i'r Awdurdod benodi Hft i ddarparu'r gwasanaeth o 1 Chwefror 2018 ymlaen, gan gyfeirio at y model gwasanaeth a'r datblygiadau o ran gweithlu, cynnydd ar adeiladu canolfan ddydd newydd i oedolion, gweithio mewn partneriaeth, codi arian, cynlluniau busnes at y dyfodol a chwilio am brosiectau. Yn ystod y cyfarfod, soniodd cyn-ddefnyddiwr gwasanaeth sydd bellach yn gweithio i Hft wrth y Pwyllgor am ei phrofiadau personol o'r gwasanaeth dros y 12 mis diwethaf, wedi'i chefnogi gan ei Hyfforddwr Swydd.

Siaradodd y Cynghorydd Ian Dunbar o blaid y gwaith rhagorol a wnaed yng Nglanrafon a chroesawai'r cyfleuster cymunedol newydd (Hwb Cyfle) a oedd i fod i agor fis Mehefin eleni yn lle'r ganolfan ddydd bresennol.

Mynegodd y Cynghorydd Paul Shotton ei werthfawrogiad am y gweithgareddau codi arian a wnaed gan Hft, a oedd wedi casglu £31,000 ar gyfer gwelliannau i'r gwasanaeth, buddsoddiadau mewn cyfarpar, technoleg a gweithgareddau newydd. Soniodd hefyd am Ysgol Fusnes Cranfield Trust a

oedd wedi darparu ymgynghorydd cynllunio busnes am ddim. Croesawai'r Cynghorydd Shotton y ganolfan gymunedol newydd.

Gofynnodd y Cynghorydd Shotton i Mr Horner a Mr Smith ddarparu mwy o wybodaeth am waith y Tîm Hyfforddi Swyddi. Eglurodd Mr Horner bod Hft yn adolygu'r holl leoliadau gwaith presennol a gefnogir gan y tîm Hyfforddi Swyddi. Dywedodd bod yr Hyfforddwyr Swyddi'n ystyried opsiynau gyda chyflogwyr lle'r oedd lleoliadau a oedd wedi bod yn ddi-dâl a bod unigolion yn cyflawni disgrifiadau swyddi a nododd rai o'r llwyddiannau roedd Hft wedi'i gael wrth wneud hyn. Gwnaeth Mr Horner sylw hefyd ar y gwaith a wnaed gan Hft i recriwtio a chefnogi unigolion mewn rolau gwirfoddol.

Soniodd Mr Horner am y rhaglen Project Search yr oedd Hft wedi'i chyflawni'n llwyddiannus ar draws y DU am flynyddoedd ac eglurodd mai rhaglen interniaeth 12 mis i oedolion ifanc ag anableddau oedd hon. Roedd y prosiect yn gweithio'n agos gyda'r cyflogwr i ddarparu profiad gwaith i interniaid er mwyn iddynt allu dysgu a datblygu'r sgiliau angenrheidiol i gael gwaith cyflogedig neu wirfoddol. Dywedodd Mr Horner y byddai Hft yn lansio Project Search yn Sir y Fflint ym mis Medi 2019.

Bu i'r Cynghorydd Carol Ellis longyfarch Mr Horner a Mr Smith am gynnydd a chyflawniadau Hft. Dywedodd fod y brwdfrydedd a'r ymrwymiad a oedd i'w weld yn ysbrydoli rhywun, ac roedd yn edrych ymlaen i Hwb Cyfle agor ac at y cyfleoedd a ddeuai yn ei sgil i Sir y Fflint.

Awgrymodd y Cynghorydd Hilary McGuill bod cyfle i ehangu'r gweithgareddau roedd Hft yn eu darparu i gynnwys gwaith a gofal o anifeiliaid i ddatblygu sgiliau cymdeithasol a rhyngweithio. Dywedodd y gellid datblygu cysylltiadau gyda sefydliadau eraill a oedd yn cefnogi pobl anabl i rannu cyfrifoldeb a chostau a oedd yn gysylltiedig â gofalu am anifeiliaid.

Ategodd y Cynghorydd Kevin Hughes safbwyntiau'r Aelodau eraill gan ddweud bod y cyflwyniad gan Hft yn ysbrydoli ac fe gynigodd ei gymorth pe baent ei angen. Soniodd hefyd am y gwasanaeth a ddarperid gan Gelfyddydau a Busnes Cymru, a oedd yn darparu cerddoriaeth fyw mewn lleoliadau fel cartrefi gofal a dywedodd y byddai'n anfon manylion at Mr Horner a Mr Smith er gwybodaeth.

Diolchodd y Cadeirydd i Mr Horner a Mr Smith am eu cyflwyniad manwl a'u hatebion i gwestiynau'r Aelodau.

**PENDERFYNWYD:**

Y dylai'r Pwyllgor ddatgan ei fod yn fodlon â'r cynnydd a wnaed drwy'r bartneriaeth â Hft ar ôl trosglwyddo'n llwyddiannus ym mis Chwefror 2018.

## 37. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL

Cyflwynodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol gyfredol i'w hystyried. Tynnodd sylw at yr eitemau a oedd wedi'u trefnu at y cyfarfod nesaf i'w gynnal ar 18 Mawrth 2019, a dywedodd fod eitem ychwanegol i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch y Strategaeth Ddigidol

wedi'i chynnwys er mwyn ei hystyried yn y cyfarfod. Dywedodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd hefyd fod yr eitem am Adolygiad Cynnydd NEWydd Catering and Cleaning, a oedd i fod i gael ei ystyried yn y cyfarfod ar 18 Mawrth, wedi'i symud i'r cyfarfod a oedd i gael ei gynnal ar 13 Mai 2019, er mwyn gallu cyflwyno adroddiad ar y Strategaeth Gwerth Cymdeithasol ar 18 Mawrth.

Cyfeiriodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd at yr eitem a oedd i gael ei threfnu ar Bwll Nofio Cei Connah – Adroddiad Cynnydd Canol Blwyddyn Cambrian Aquatics 2018/19. Dywedodd eto fod Aelodau Bwrdd Cambrian Aquatics wedi'i chael yn anodd dod i'r cyfarfod ar 28 Ionawr, ac fe awgrymwyd ailystyried amser a lleoliad y cyfarfod er mwyn iddynt allu bod yno. Dywedodd y Cynghorydd Paul Shotton bod un o gyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor wedi'i gynnal yn y bore yn Cambrian Aquatics, Cei Connah, a gofynnodd a ellid ystyried hyn. Awgrymodd y Cynghorydd Tudor Jones i nifer fechan o Aelodau'r Pwyllgor fynd i gyfarfod gydag Aelodau Bwrdd Cambrian Aquatics ar adeg sy'n gyfleus i bawb ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor mewn cyfarfod yn y dyfodol. Cytunwyd y byddai Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd yn ystyried yr awgrymiadau a gyflwynwyd gyda Cambrian Aquatics.

Awgrymodd y Cynghorydd Ian Dunbar y dylid trefnu ymweliad â Hwb Cyfle yn y dyfodol ar ran y Pwyllgor.

Awgrymodd y Cynghorydd Paul Shotton y dylid newid lleoliad y cyfarfod a oedd i gael ei gynnal ar 18 Mawrth i Ganolfan Hamdden Glannau Dyfrdwy.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Cymeradwyo'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol; a

(b) Bod yr Hwylusydd, gan ymgynghori gyda Chadeirydd y Pwyllgor, yn cael caniatâd i amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, pe bai angen.

## 38. AELODAU'R WASG A'R CYHOEDD YN Y CYFARFOD

Nid oedd unrhyw aelodau o'r cyhoedd na'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 am a daeth i ben am 11.35 am)

..................................................
**Cadeirydd**